

LLINELLAU SYLFAEN BIOAMRYWIAETH

canfyddiadau o Ein Ffermydd

Cynhaliwyd astudiaethau llinell sylfaen bioamrywiaeth ar draws 15 o Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio. Roedd yr astudiaethau'n cynnwys mapio'r ffermydd i weld pa fathau o gynefinoedd sy'n bresennol. Mae gwybod pa gynefinoedd sydd i'w cael ar fferm yn rhoi arwydd da o'r fioamrywiaeth y gall y fferm ei chynnal.

» Canfyddiadau o Ein Ffermydd

Gwnaethom fesur arwynebedd y cynefinoedd lled-naturiol ar draws y ffermydd, gan fod y rhain yn fwy gwerthfawr o ran bioamrywiaeth nag ardaloedd sydd wedi'u gwella.

Mae gan rai ffermydd **lai nag 1% o gynefinoedd lled-naturiol** tra bod **dros 70%** gan eraill.

Mae hyn yn amlygu'r **amrywiaeth enfawr o ran math o fferm, topograffeg a systemau cynhyrchu ledled Cymru**. Mae'n bwysig sylweddoli bod gan bob fferm ryw faint o werth i fioamrywiaeth, ond bydd y rhai sydd ag amrywiaeth o gynefinoedd yn apelio at ystod ehangach o rywogaethau.



Ffyngau cap cwyr sy'n gysylltiedig â glaswelltiroedd wedi'u lled-wella neu heb eu gwella.

Waxcap fungi which are associated with semi or unimproved grasslands.



Glöyn byw y Glesyn Cyffredin yn manteisio ar yr amrywiaeth o blanhigion blodeuol mewn glaswelltiroedd wedi'u lled-wella (llun S Duller)

Common Blue butterfly taking advantage of the range of flowering plants in semi-improved grasslands (photo S Duller)



Derwen hynafol mewn gwrych. Mae'r rhain yn gynefinoedd pwysig ar gyfer amrywiaeth anferth o bryfed sydd angen pren marw a phren sy'n pydru i gwblhau eu cylch bywyd.

A veteran oak in a hedgerow. These are important habitats for a huge range of insects that require dead and decaying wood to complete their life cycle.



Mae ymylon caeau yn ardaloedd gwych ar gyfer bioamrywiaeth lle mae ardal bontio rhwng y cae sydd wedi'i wella a'r ardal o dan y gwrych sydd heb ei gwella. Yn aml, mae'n bosibl gweld amrywiaeth eang o blanhigion blodeuol a fydd yn cynnal llawer o adar a phryfed.

Field margins are great areas for biodiversity where there is a transition between the improved field and the unimproved hedge line. It is often possible to find a wide variety of flowering plants that will support many birds and insects.



Mae ardaloedd corsiog gwlyb yn gyffredin ar lawer o ffermydd yng Nghymru, ac ni ddylid eu hanwybyddu o ran eu gwerth i fioamrywiaeth. Byddant yn cynnal amrywiaeth wahanol o blanhigion a phryfed o gymharu â glaswelltiroedd sychach.

Wet marshy areas are common on many farms in Wales and should not be overlooked in terms of their value to biodiversity. They will support a different range of plants and insects compared to drier grasslands.



Gwelwyd y gylfinir ar rai o Ein Ffermydd. Mae niferoedd y rhain yn gostwng, ac maent yn byw mewn ardaloedd o laswelltir corsiog ac ucheldirol.

Curlew have been seen on some of Our Farms. These are declining in numbers and live in marshy and upland grassland areas.

BIODIVERSITY BASELINES

findings from Our Farms

Biodiversity baseline studies were undertaken across 15 Farming Connect Our Farms. The studies involved mapping the farms to see what habitat types are present. Knowing what habitats are on a farm gives a good indication of the biodiversity that the farm can support.

» Findings from Our Farms

We measured the area of semi-natural habitats across the farms as these have a greater value to biodiversity than improved areas.

Some farms have **less than 1% semi-natural habitats** while others have **over 70%**.

This highlights the **huge diversity in farm type, topography and production systems across Wales**. It is important to realise that all farms have some value to biodiversity but those with a range of habitats will appeal to a wider range of species.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

EIN FFERMYDD
OUR FARMS